Dadansoddi ar gyfer Polisi

YMCHWIL GYMDEITHASOL Y LLYWODRAETH

GOVERNMENT SOCIAL RESEARCH

Analysis for Policy

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Rhif ymchwil cymdeithasol: 122/2025

Dyddiad cyhoeddi: 10/12/2025

# Cymhwystra ar gyfer prydau ysgol am ddim (eFSM) a Mwy: Adolygiad o'r angen am ddata ar anfantais economaidd-gymdeithasol dysgwyr a'r defnydd a wneir o'r data hwnnw – Atodiad technegol

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.

This document is also available in English.

OGL © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80633-757-6

Cymhwystra ar gyfer prydau ysgol am ddim (eFSM) a Mwy: Adolygiad o'r angen am ddata ar anfantais economaidd-gymdeithasol dysgwyr a'r defnydd a wneir o'r data hwnnw

Awduron: Megan Clark, Oliver Allies, Huw Lloyd-Williams, Hilda Bernhardsson, Jakob Abekhon

Adroddiad Ymchwil Llawn: Clark, M; Allies, O; Lloyd-Williams, H; Bernhardsson, H; Abekhon, J (2025). Cymhwystra ar gyfer prydau ysgol am ddim (eFSM) a Mwy: Adolygiad o'r angen am ddata ar anfantais economaidd-gymdeithasol dysgwyr a'r defnydd a wneir o'r data hwnnw. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, rhif adroddiad, GSR 122/2025

Ar gael yn: https://www.llyw.cymru/cymhwystra-ar-gyfer-prydau-ysgol-am-ddim-efsm-mwy-adolygiad-data

Barn yr ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid yw o reidrwydd yn farn Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â'r canlynol:

Cangen Ymchwil Ysgolion

Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi

Llywodraeth Cymru

Parc Cathays

Caerdydd

CF10 3NQ

Ffôn: 0300 025 9247

E-bost: YmchwilYsgolion@llyw.cymru

# Tabl Cynnwys

Rhestr tablau ........ 2
Ynghylch yr atodiad technegol hwn ........ 3
Gwybodaeth ar gyfer dehongli’r tablau ........ 3

## Rhestr tablau

Tabl 1. Gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer data ar anfantais economaidd-gymdeithasol dysgwyr ........ 5
Tabl 2. Gofynion awdurdodau lleol ar gyfer data ar anfantais economaidd-gymdeithasol dysgwyr ........ 9
Tabl 3. Gofynion ysgolion ar gyfer data ar anfantais economaidd-gymdeithasol dysgwyr ........ 14
Tabl 4. Gofynion rhanddeiliaid eraill ar gyfer data ar anfantais economaidd-gymdeithasol dysgwyr ........ 16

## Ynghylch yr atodiad technegol hwn

Lluniwyd yr atodiad technegol hwn fel rhan o brosiect ymchwil o'r enw 'Cymhwystra ar gyfer prydau ysgol am ddim (eFSM) a Mwy: Adolygiad o'r angen am ddata ar anfantais economaidd-gymdeithasol dysgwyr a'r defnydd a wneir o'r data hwnnw'. Mae wedi'i fwriadu i gyd fynd â'r prif adroddiad.

Prif amcanion yr ymchwil hwn oedd pennu ystod yr anghenion data sydd gan Lywodraeth Cymru a rhanddeiliaid eraill yn ymwneud â dysgwyr dan anfantais economaidd-gymdeithasol a'r dibenion y maent yn defnyddio'r data hwnnw, ynghyd â deall yn llawn sut maent yn defnyddio data eFSM ar hyn o bryd. Mae'r ymchwil hefyd yn ceisio casglu safbwyntiau ar sut i oresgyn cyfyngiadau eFSM ac archwilio pa fathau eraill o ddata y mae rhanddeiliaid yn eu defnyddio neu'n teimlo yr hoffent gael mynediad atynt i ddiwallu eu hanghenion yn well.

Roedd y dulliau ymchwilio ar gyfer yr ymchwil hwn yn cynnwys dwy elfen o gasglu data sylfaenol, wedi'u casglu'n bennaf rhwng mis Mawrth ac Awst 2024. Roedd yr ymchwil hwn yn cynnwys ymarfer ffurflen profforma y cafwyd 33 o ymateb iddo gan 13 o swyddogion Llywodraeth Cymru ac 19 awdurdod lleol, ynghyd â chynnal cyfweliadau lled-strwythuredig (55 o gyfranogwyr) gyda rhanddeiliaid ledled Cymru. Mae trosolwg llawn o'r fethodoleg a'i chyfyngiadau yn yr adroddiad llawn.

Yn yr atodiad technegol hwn ceir cyfres o dablau sy'n amlinellu gofynion rhanddeiliaid o ran data ar anfantais economaidd-gymdeithasol ymhlith dysgwyr. Yn y tablau amlinellir eu dibenion eang a phenodol ar gyfer defnyddio'r data a'u cysylltu ag ystod o nodweddion data a ystyrir yn fwyaf dymunol i ddiwallu anghenion rhanddeiliaid gwahanol.

## Gwybodaeth ar gyfer dehongli'r tablau

Er mwyn dehongli'r tablau hyn, dylid ystyried y diffiniadau canlynol:

Mae **defnydd o'r data** yn cyfeirio at y dibenion y mae'r rhanddeiliaid yn defnyddio'r data.

Mae **nodweddion data** yn cyfeirio at wahanol briodweddau data.

O ran nodweddion data, mae rhanddeiliaid yn disgwyl i ddata fod o ansawdd uchel ac wedi'i ddilysu i leihau gwallau. Yn ogystal, dylid cael tryloywder ynghylch y dulliau casglu data a'u cyfyngiadau cysylltiedig. Disgwylir yr elfennau sylfaenol hyn gan yr holl randdeiliaid ac ar gyfer y dibenion y maent yn defnyddio data ar eu cyfer; mae eu habsenoldeb yn golygu na fyddai'r data yn addas at y diben. Oherwydd bod hyn yn gyffredin rhyngddynt oll, nid ydynt wedi'u cynnwys yn y tablau.

Mae rhychwant o nodweddion pellach a nodwyd i fod yn rhai pwysig i'w hystyried, a'r rhain yn amrywio ar draws y rhanddeiliaid ac yn ôl y dibenion y maent yn defnyddio'r data ar eu cyfer:

- **Hygyrchedd ac argaeledd**, sef darparu data sy'n rhwydd cael gafael arno ac ar gael i randdeiliaid i'w ddadansoddi.

- **Hwylustod ei ddeall**, sef bod y data'n cael ei ddeall yn dda ac yn gyfarwydd i'r rhanddeiliaid, a thrwy hynny'n cefnogi hyder defnyddwyr a dehongliad cywir.
- **Amseroldeb**, neu pa mor gyfredol neu ddiweddar yw'r data, a'r graddau y gall data adlewyrchu realiti presennol anfantais economaidd-gymdeithasol.
- **Amlder**, neu ba mor aml y mae data ar gael, yn dangos y caiff data ei ddiweddaru ar gyfnodau digon rheolaidd i roi modd i randdeiliaid gymharu tueddiadau dros gyfnod amser priodol.
- **Sefydlogrwydd dros amser,** sef ei bod yn angenrheidiol bod diffiniadau o gysyniadau perthnasol a'r dull casglu data yn parhau i fod yn gyson er mwyn cymharu tueddiadau hydredol yn ystyrlon.
- **Y gallu i gymharu**, sef bod y data yn cyd-fynd â dulliau a wnaed mewn mannau eraill ac yn caniatáu integreiddio a chymharu â setiau data mewn lleoliadau eraill.
- **Manylder yr wybodaeth,** sef manylder y data ar lefel briodol o fanylder, gan gynnwys yn ôl:
    - **Gwrthrych y data,** sy'n cyfeirio at bwy neu ba wybodaeth sy'n cael ei chofnodi mewn perthynas â'r hyn a bennir yn y golofn.
    - **Daearyddiaeth**, sy'n cyfeirio at y lefel y mae data ar gael, megis ar lefel unigolyn, ysgol, cymdogaeth (e.e. LSOA), awdurdod lleol, rhanbarth neu genedlaethol.
- **Elfennau a dimensiynau anfantais economaidd-gymdeithasol** – mae hyn yn ymwneud â gwahanol ffactorau sy'n gysylltiedig â natur aml-ddimensiwn anfantais economaidd-gymdeithasol y byddai rhanddeiliaid yn hoffi i ddata ei adlewyrchu. Gall hyn gynnwys incwm, yn ogystal â gwybodaeth gyd-destunol ar ffactorau eraill sy'n chwarae rhan hollbwysig mewn canlyniadau addysgol.
- **Dilysrwydd y lluniad** (*construct validity*), y graddau y mae data yn dal gwir natur y cysyniad neu'r ffenomen sylfaenol y mae'n honni ei fesur; yn yr achos hwn, sut mae'n adlewyrchu anfantais economaidd-gymdeithasol ymhlith dysgwyr.
- **Consensws**, sef rhanddeiliaid ar bob lefel o fewn polisi neu faes arall yn defnyddio dull neu ffynhonnell ddata debyg i ddangos tystiolaeth o ffenomenau y gellir eu cymharu.

## Tabl 1. Gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer data ar anfantais economaidd-gymdeithasol dysgwyr

| Defnydd cyffredinol | Defnydd penodol | Hwylustod ei ddeall | Amseroldeb | Amlder (ar y lleiaf) | Sefydlogrwydd | Gallu cymharu | Gwrthrych y data | Daearyddiaeth | Elfennau a dimensiynau anfantais economaidd-gymdeithasol | Consensws |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llywio a datblygu polisïau** | Datblygu polisi (gan gynnwys Dangosyddion Cenedlaethol) | **Pwysig:** dylai fod yn ddigon rhwydd ei ddeall i gefnogi ymgysylltiad y cyhoedd; yn gyfarwydd i randdeiliaid i gefnogi hyder mewn penderfyniadau polisi | **Llai pwysig:** ei angen i lywio datblygu polisi ar gylch 2–5 blynedd | Blynyddol | **Pwysig** ar gyfer gwerthuso effaith dros amser drwy gymharu tueddiadau | **Llai pwysig,** er ei fod yn ddefnyddiol wrth feincnodi yn erbyn gwledydd eraill | Yr unigolyn | Hanfodol ar lefel genedlaethol<br><br>Dymunol ar lefel awdurdod lleol | **Pwysigrwydd mawr** ar gael mynediad at ddata incwm sy'n deillio o brocsis, fel eFSM ac yn fwy uniongyrchol drwy DWP a HBAI<br><br>**Pwysigrwydd** cael mynediad at wybodaeth arall ar gyd-destun, fel y gwelir yn y defnydd o MALIC a'r Cyfrifiad, yn ogystal â mesurau cyfansawdd eraill. Peth diddordeb, yn dibynnu ar y defnydd penodol, fel y dangoswyd gan y data ar nifer y dysgwyr ag ADY, grantiau gwisg ysgol, atgyfeiriadau i wasanaethau cymdeithasol, a deiliadaeth tai. | **Pwysig,** dylai ddangos tystiolaeth o ffenomenau y cytunwyd arnynt ar gyfer meincnodi cenedlaethol |
| **Llywio a datblygu polisïau** | Rhagolygon cyllideb addysg | **Llai pwysig,** ffocws mewnol Llywodraeth Cymru | **Pwysig** i roi gwybodaeth i gyllidebau diwedd y flwyddyn | Blynyddol | **Llai pwysig,** yn adlewyrchu meini prawf grantiau ac nid oes angen dadansoddi tueddiadau | **Llai pwysig,** mewnol i Lywodraeth Cymru | Yr unigolyn | **Hanfodol** ar lefel genedlaethol<br><br>Dymunol ar lefel awdurdod lleol | **Pwysigrwydd mawr** ar gael mynediad at ddata incwm sy'n deillio o brocsis, fel yr eFSM | **Pwysig:** dylai'r data a ddefnyddir adlewyrchu meini prawf grant / ariannu |
| **Llywio a datblygu polisïau** | Monitro polisïau | **Pwysig,** yn enwedig mewn perthynas â chyhoeddi effaith polisi | **Pwysig** i roi gwybod am lwyddiannau ac/neu ddiwygio polisi. | Blynyddol | **Pwysig** ar gyfer cymharu tueddiadau | **Llai pwysig,** er ei fod yn ddefnyddiol wrth feincnodi yn erbyn gwledydd eraill | Yr unigolyn | Hanfodol ar lefel genedlaethol<br><br>Dymunol ar lefel awdurdod lleol | **Pwysigrwydd mawr** ar gael mynediad at ddata incwm sy'n deillio o brocsis, fel yr eFSM<br>**Pwysigrwydd** cael mynediad at wybodaeth arall ar gyd-destun, fel y gwelir yn y defnydd o MALIC | **Pwysig,** dylai ddangos tystiolaeth o ffenomenau cymharol ar gyfer meincnodi cenedlaethol |

| Defnydd cyffredinol | Defnydd penodol | Hwylustod ei ddeall | Amseroldeb | Amlder (ar y lleiaf) | Sefydlogrwydd | Gallu cymharu | Gwrthrych y data | Daearyddiaeth | Elfennau a dimensiynau anfantais economaidd-gymdeithasol | Consensws |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfrifo a dosbarthu cyllid** | Grant Addysg Llywodraeth Leol (gan gynnwys PDG | **Llai pwysig,** mewnol i Lywodraeth Cymru | **Pwysig** i adlewyrchu anghenion anfantais economaidd-gymdeithasol diweddar yn y ffordd fwyaf cywir | Blynyddol | **Llai pwysig,** dim angen dadansoddi tueddiadau | **Llai pwysig** | **Yr unigolyn** | Hanfodol ar lefel awdurdod lleol ac ysgol | **Pwysigrwydd mawr** ar gael mynediad at ddata incwm sy'n adlewyrchu lefelau tlodi wedi deillio o brocsis, megis yr eFSM neu'n uniongyrchol o DWP (cymorth amrywiol ag incwm a budd-daliadau). Hefyd, pwysigrwydd data incwm dros y tymor hwy yn hytrach nag ar un adeg benodol mewn amser.<br><br>**Pwysigrwydd** cael gafael ar wybodaeth fwy cyd-destunol | **Llai pwysig,** Mewnol i Lywodraeth Cymru |
| **Cyfrifo a dosbarthu cyllid** | Grant Hanfodion Ysgol (SEG) | **Pwysig**, rhaid i ysgolion a theuluoedd fod yn gyfarwydd ag ef a'i ddeall; yn dibynnu ar rieni yn gwneud cais | **Pwysig** i adlewyrchu anghenion anfantais economaidd-gymdeithasol diweddar yn y ffordd fwyaf cywir | Blynyddol | **Llai pwysig,** dim angen dadansoddi tueddiadau | **Llai pwysig** | Yr unigolyn | Hanfodol ar lefel awdurdod lleol | **Pwysigrwydd mawr** ar gael mynediad at ddata incwm sy'n deillio o brocsis, megis eFSM neu'n fwy uniongyrchol drwy DWP. Hefyd, pwysigrwydd data incwm dros y tymor hwy yn hytrach nag ar un adeg benodol mewn amser. | **Llai pwysig,** Mewnol i Lywodraeth Cymru |
| **Cyfrifo a dosbarthu cyllid** | Grant UPFSM | **Pwysig,** rhaid i ysgolion a theuluoedd fod yn gyfarwydd ag ef a'i ddeall; yn dibynnu ar rieni yn gwneud cais | **Pwysig** i adlewyrchu anghenion anfantais economaidd-gymdeithasol diweddar yn y ffordd fwyaf cywir | Blynyddol | **Llai pwysig,** dim angen dadansoddi tueddiadau | **Llai pwysig** | Yr unigolyn | Hanfodol ar lefel awdurdod lleol | **Pwysigrwydd mawr** ar gael mynediad at ddata incwm sy'n deillio o brocsis megis eFSM<br><br>**Peth pwysigrwydd** ar gael mynediad at fwy o wybodaeth gyd-destunol, fel sy'n amlwg yn eu defnydd o MALIC ar gyfer ymchwil sy'n gysylltiedig â pholisi | **Llai pwysig,** Mewnol i Lywodraeth Cymru |

| Defnydd cyffredinol | Defnydd penodol | Hwylustod ei ddeall | Amseroldeb | Amlder (ar y lleiaf) | Sefydlogrwydd | Gallu cymharu | Gwrthrych y data | Daearyddiaeth | Elfennau a dimensiynau anfantais economaidd-gymdeithasol | Consensws |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfrifo a dosbarthu cyllid** | Setliad Llywodraeth Leol | **Llai pwysig,** mewnol i Lywodraeth Cymru, er ei fod yn ddefnyddiol ar gyfer cynnig tryloywder wrth wneud penderfyniadau | **Pwysig** i adlewyrchu anghenion anfantais economaidd-gymdeithasol diweddar yn y ffordd fwyaf cywir | Blynyddol | **Llai pwysig,** dim angen dadansoddi tueddiadau | **Llai pwysig** | Yr unigolyn | Hanfodol ar lefel awdurdod lleol | **Pwysigrwydd mawr** ar gael mynediad at ddata ar incwm sy'n deillio o brocsis, fel eFSM, ac yn fwy uniongyrchol drwy DWP (e.e. cymorth incwm a budd-daliadau). Hefyd, pwysigrwydd data incwm tymor hwy yn hytrach nag ar un adeg benodol.<br><br>**Pwysigrwydd** cael mynediad at wybodaeth arall ar gyd-destun, fel y gwelir yn y defnydd o MALIC a data'r Cyfrifiad (gan gynnwys NS-SEC, cyfansoddiad aelwyd, lefelau cymwysterau, ac ethnigrwydd, ac ati). | **Llai pwysig,** Mewnol i Lywodraeth Cymru |
| **Ystadegau a monitro canlyniadau** | Llunio ystadegau ysgolion ac AWCDS | **Pwysig** i sicrhau bod data yn cael ei ddadansoddi, ei ddefnyddio a'i gyfleu'n briodol | **Pwysig** i adlewyrchu anfantais economaidd-gymdeithasol ymysg dysgwyr yn y ffordd fwyaf cywir | Blynyddol | **Pwysig** i gymharu tueddiadau perfformio carfannau o ddysgwyr ac ysgolion dros amser | **Pwysig** ar gyfer cymharu rhyngwladol (PISA) | Yr unigolyn | Hanfodol ar lefel unigolion ac ysgolion | **Pwysigrwydd mawr** cael mynediad at ddata incwm sy'n deillio o brocsis, megis eFSM ac yn fwy uniongyrchol o DWP ar incwm aelwydydd a budd-daliadau<br><br>**Peth pwysigrwydd** ar gael mynediad at wybodaeth gyd-destunol, fel sy'n amlwg yn y defnydd o MALIC ar gyfer grwpio ysgolion | **Pwysig** ar gyfer cymharu rhyngwladol |
| **Ystadegau a monitro canlyniadau** | Rhannu ystadegau (ADR, PISA, LLWR) | **Pwysig** i sicrhau bod data yn cael ei ddadansoddi, ei ddefnyddio a'i gyfleu'n briodol | **Pwysig** i adlewyrchu anfantais economaidd-gymdeithasol ymysg dysgwyr yn y ffordd fwyaf cywir | **Blynyddo** | **Pwysig iawn** ar gyfer dadansoddi tueddiadau hydredol | **Pwysig iawn** i gymharu â newidynnau neu ddulliau eraill | Yr unigolyn | Hanfodol ar lefel unigolion | **Pwysigrwydd mawr** cael mynediad at ddata incwm sy'n deillio o brocsis, megis eFSM ac yn fwy uniongyrchol o DWP ar incwm aelwydydd a budd-daliadau<br><br>**Peth pwysigrwydd** ar gael mynediad at wybodaeth gyd-destunol, fel y gwelir yn y defnydd o MALIC | **Pwysig** ar gyfer cymharu rhyngwladol |

| Defnydd cyffredinol | Defnydd penodol | Hwylustod ei ddeall | Amseroldeb | Amlder (ar y lleiaf) | Sefydlogrwydd | Gallu cymharu | Gwrthrych y data | Daearyddiaeth | Elfennau a dimensiynau anfantais economaidd-gymdeithasol | Consensws |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ystadegau a monitro canlyniadau** | Ystadegau ôl-16 | **Pwysig** i sicrhau bod data yn cael ei ddadansoddi, ei ddefnyddio a'i gyfleu'n briodol | **Llai pwysig,** cyn belled â'i fod yn cyfateb ag amseriad data canlyniadau / perfformiad | **Blynyddol** | **Pwysig iawn** ar gyfer dadansoddi tueddiadau hydredol | **Pwysig iawn** i gymharu â newidynnau neu ddulliau eraill | Yr unigolyn | Hanfodol ar lefel unigolion | **Pwysigrwydd mawr** cael mynediad at ddata incwm sy'n deillio o brocsis, megis eFSM a gwybodaeth uniongyrchol o DWP ar incwm aelwydydd a budd-daliadau<br><br>**Peth pwysigrwydd** ar gael mynediad at wybodaeth gyd-destunol, fel y gwelir yn y defnydd o MALIC | **Pwysig** i'w gymharu â gwledydd cartref eraill ac yn rhyngwladol |

# Tabl 2. Gofynion awdurdodau lleol ar gyfer data ar anfantais economaidd-gymdeithasol dysgwyr

| Defnydd cyffredinol | Defnydd penodol | Hwylustod ei ddeall | Amseroldeb | Amlder (ar y lleiaf) | Sefydlogrwydd | Gallu cymharu | Gwrthrych y data | Daearyddiaeth | Elfennau a dimensiynau anfantais economaidd-gymdeithasol | Consensws |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Llywio datblygu polisïau** | Datblygu polisïau (gan gynnwys strategaethau tlodi ac asesiadau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | **Pwysig,** dylai fod yn ddealladwy i gefnogi ymgysylltiad y cyhoedd a bod yn gyfarwydd i randdeiliaid er mwyn cefnogi hyder mewn penderfyniadau polisi | **Llai pwysig,** ei angen i lywio datblygu polisi ar gylch 2–5 mlynedd | Blynyddol | **Pwysig** ar gyfer cymharu tueddiadau | **Pwysig** ar gyfer meincnodi ag awdurdodau lleol eraill | Yr unigolyn | Hanfodol ar lefel awdurdod lleol<br><br>Ar lefel ward neu LSOA yn ddymunol | **Pwysigrwydd mawr** cael mynediad at ddata incwm sy'n deillio o brocsis, megis eFSM ac yn fwy uniongyrchol o incwm aelwydydd a budd-daliadau DWP, etc, a byddai'n well ganddynt iddo gael ei haenu mewn graddiannau yn hytrach na bod yn ddeuaidd<br><br>**Pwysigrwydd** cael gafael ar wybodaeth gyd-destunol arall, fel y gwelir yn y defnydd o MALIC i gymharu â gwahanol awdurdodau i lywio ymyrraeth polisi, yn ogystal ag enghreifftiau unigol o ddefnyddio data marchnad lafur Acorn/CACI | **Pwysig,** dylai awdurdodau lleol ddangos tystiolaeth o ffenomenau cymharol ar gyfer meincnodi cenedlaethol |
| **Llywio datblygu polisïau** | Rhagolygon cyllideb addysg | **Llai pwysig,** mewnol i awdurdod lleol | **Pwysig** i roi gwybodaeth i gyllidebau diwedd y flwyddyn | Blynyddol | **Llai pwysig,** yn adlewyrchu meini prawf grant a dim angen dadansoddi tueddiadau | **Llai pwysig,** mewnol i awdurdod lleol | Yr unigolyn | Hanfodol ar lefel awdurdod lleol<br><br>Dim angen iddo fod ar lefel ward neu LSOA | | **Pwysig:** dylai'r data a ddefnyddir adlewyrchu meini prawf grant/ariannu |

| Defnydd cyffredinol | Defnydd penodol | Hwylustod ei ddeall | Amseroldeb | Amlder (ar y lleiaf) | Sefydlogrwydd | Gallu cymharu | Gwrthrych y data | Daearyddiaeth | Elfennau a dimensiynau anfantais economaidd-gymdeithasol | Consensws |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfrifo a dosbarthu cyllid** | Grant Datblygu Disgyblion (PDG) | **Llai pwysig,** mewnol i awdurdod lleol | **Pwysig** i adlewyrchu anfantais economaidd-gymdeithasol diweddaraf yn y ffordd fwyaf cywir | Blynyddol | **Llai pwysig,** dim angen dadansoddi tueddiadau | **Llai pwysig,** mewnol i awdurdod lleol a meini prawf wedi'u gosod yn genedlaethol | Yr unigolyn | Hanfodol ar lefel ysgol | **Pwysigrwydd mawr** mewn defnyddio data incwm wedi deillio o brocsis, megis eFSM, a data uniongyrchol o incwm aelwydydd a budd-daliadau DWP. Hefyd, pwysigrwydd data incwm hirdymor yn hytrach ar un adeg benodol.<br><br>**Pwysig** bod Llywodraeth Cymru yn defnyddio gwybodaeth gyd-destunol arall, megis MALIC, a dyhead i gael dangosyddion tlodi tanwydd er mwyn sicrhau bod cyllid yn mynd i'r rheiny sydd ei angen<br><br>Y dewis fyddai cael gwybodaeth mewn graddiant, nid yn ddeuol | **Amherthnasol** – meini prawf wedi'u gosod yn genedlaethol |
| **Cyfrifo a dosbarthu cyllid** | Grant Hanfodion Ysgol (SEG) | **Pwysig iawn**, rhaid i ysgolion a theuluoedd ei ddeall; yn dibynnu ar rieni yn gwneud cais | **Pwysig**: yn ddelfrydol, cyllideb wedi'i harwain gan y galw | Blynyddol | **Llai pwysig,** dim angen dadansoddi tueddiadau | **Llai pwysig,** mewnol i awdurdod lleol a meini prawf wedi'u gosod yn genedlaethol | Yr unigolyn | Dymunol ar lefel ysgol | **Pwysigrwydd mawr** ar gael gafael ar ddata incwm o brocsis, megis eFSM, ac, yn fwy uniongyrchol, o ddata incwm aelwydydd a budd-daliadau DWP. Hefyd, pwysigrwydd data incwm dros y tymor hwy yn hytrach nag ar un adeg benodol mewn amser<br><br>**Pwysigrwydd** mwy o wybodaeth gyd-destunol i sicrhau bod cyllid yn mynd i'r holl ddysgwyr hynny sydd mewn angen | **Amherthnasol** - meini prawf wedi'u gosod yn genedlaethol |

| Defnydd cyffredinol | Defnydd penodol | Hwylustod ei ddeall | Amseroldeb | Amlder (ar y lleiaf) | Sefydlogrwydd | Gallu cymharu | Gwrthrych y data | Daearyddiaeth | Elfennau a dimensiynau anfantais economaidd-gymdeithasol | Consensws |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cyfrifo a dosbarthu cyllid** | Cyllideb Ysgolion Unigol (ISB) | **Llai pwysig,** yn fewnol i ysgolion ac awdurdodau lleol, er bod ymgais i gael mwy o dryloywder yn y fformiwla a ddefnyddir | **Pwysig** i adlewyrchu anfantais economaidd-gymdeithasol diweddaraf yn y ffordd fwyaf cywir | Blynyddol | **Llai pwysig,** dim angen dadansoddi tueddiadau | **Llai pwysig,** mewnol i awdurdod lleol | Yr unigolyn | Hanfodol ar lefel ysgol | **Pwysigrwydd mawr** ar gael mynediad at ddata incwm sy'n deillio o brocsis, megis eFSM ac yn uniongyrchol o DWP. Hefyd, pwysigrwydd data incwm dros y tymor hwy yn hytrach nag ar un adeg benodol mewn amser.<br><br>**Pwysigrwydd** cael mynediad at wybodaeth arall ar gyd-destun, fel y gwelir yn y defnydd o ddangosyddion MALIC, dangosyddion tlodi tanwydd, ac, mewn un achos, cymwysterau aelwyd mewn fformiwlâu cyllido.<br><br>Y dewis fyddai cael gwybodaeth mewn graddiant, nid yn ddeuol | **Llai pwysig,** mewnol i awdurdod lleol |
| **Cyfrifo a dosbarthu cyllid** | Arlwyo mewn ysgolion | **Pwysig iawn,** rhaid i ysgolion a theuluoedd ei ddeall; yn dibynnu ar rieni yn gwneud cais | **Pwysig,** cyllideb dan arweiniad y galw | Bob wythnos/bob mis | **Llai pwysig,** dim angen dadansoddi tueddiadau | **Llai pwysig,** mewnol i awdurdod lleol | Yr unigolyn | Hanfodol ar lefel ysgol | **Pwysigrwydd mawr** cael mynediad at ddata incwm sy'n deillio o brocsis, megis eFSM neu'n uniongyrchol o DWP neu HBAI | **Llai pwysig,** mewnol i awdurdod lleol/ysgol |

| Defnydd cyffredinol | Defnydd penodol | Hwylustod ei ddeall | Amseroldeb | Amlder (ar y lleiaf) | Sefydlogrwydd | Gallu cymharu | Gwrthrych y data | Daearyddiaeth | Elfennau a dimensiynau anfantais economaidd-gymdeithasol | Consensws |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Darparu cymorth wedi'i dargedu** | Darparu cymorth wedi'i dargedu (gan gynnwys VAP) | **Llai pwysig,** er bod tryloywder y dull yn bwysig ar gyfer dealltwriaeth rhanddeiliaid | **Pwysig iawn** i adnabod dysgwyr a allai fod yn fwy tebygol o fod yn agored i niwed neu sydd angen cymorth ychwanegol | Blynyddol yn hanfodol<br><br>Bob tymor/bob mis yn ddymunol | **Llai pwysig,** ond gallai fod yn ddefnyddiol ar gyfer dadansoddi tueddiadau | **Llai pwysig** | Yr unigolyn | Hanfodol ar lefel dalgylch ysgol | **Pwysigrwydd isel** ar gael mynediad at ddata incwm sy'n deillio o brocsis, megis eFSM, a mwy o werth yn cael ei roi ar ddata mwy uniongyrchol, megis o DWP. Hefyd, pwysigrwydd data incwm dros y tymor hwy yn hytrach nag ar un adeg benodol mewn amser.<br><br>**Pwysigrwydd mawr** cael gafael ar fwy o wybodaeth gyd-destunol, gan gynnwys statws ADY, cyrhaeddiad, presenoldeb a gwaharddiadau, a data yn ymwneud â statws economaidd-gymdeithasol rhieni (NS-SEC) y gellir ei ddefnyddio fel rhan o fesur cyfansawdd. | **Llai pwysig,** mewnol i awdurdod lleol |
| **Ystadegau a monitro canlyniadau** | Monitro a meincnodi canlyniadau dysgwyr<br><br>Sylwer – yn gysylltiedig â gwella ysgolion a gwaith cyffredinol ysgolion | **Pwysig** i sicrhau bod data yn cael ei ddadansoddi, ei ddefnyddio, ei ddeall a'i gyfleu'n briodol | **Pwysig** i gymharu canlyniadau dysgwyr yn ystyrlon, yn ddelfrydol wedi'u cofnodi ar sawl pwynt yn ystod y flwyddyn dros gyfnod parhaus | Blynyddol yn hanfodol<br><br>Bob tymor/bob mis yn ddymunol | **Pwysig iawn** i ddadansoddi cynnydd dysgwyr unigol drwy addysg a chymharu tueddiadau perfformiad carfannau dros amser | **Pwysig** ar gyfer meincnodi ag awdurdodau lleol eraill ac ar gyfer cymharu ar draws ysgolion o fewn awdurdod lleol. | Yr unigolyn | Hanfodol ar lefel unigolion | **Pwysigrwydd mawr** cael mynediad at ddata incwm sy'n deillio o brocsis, megis eFSM, ac yng ngwerth data uniongyrchol o DWP a HBAI. Hefyd, pwysigrwydd data incwm hirdymor yn hytrach nag ar un pwynt amser, a dewis iddo gael ei haenu mewn graddiannau yn hytrach na bod yn ddata deuaidd.<br><br>**Pwysigrwydd** cael gafael ar fwy o wybodaeth gyd-destunol, fel y gwelir yn nefnydd pump o awdurdodau o ddangosyddion MALIC a defnydd dau awdurdod o Acorn/CACI, gan gyfuno data tai (daliadaeth, maint, pris) a'r Cyfrifiad gyda dangosyddion iechyd a throseddu | **Pwysig** ar gyfer meincnodi ag awdurdodau lleol eraill ac yn genedlaethol |

| **Defnydd cyffredinol** | **Defnydd penodol** | **Hwylustod ei ddeall** | **Amseroldeb** | **Amlder (ar y lleiaf)** | **Sefydlogrwydd** | **Gallu cymharu** | **Gwrthrych y data** | **Daearyddiaeth** | **Elfennau a dimensiynau anfantais economaidd-gymdeithasol** | **Consensws** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwella ysgolion** | Adnabod dysgwyr bregus posibl | **Llai pwysig,** er bod tryloywder y dull yn bwysig ar gyfer dealltwriaeth rhanddeiliaid (consortia rhanbarthol, ysgolion, llywodraethwyr) | **Pwysig iawn** i adnabod dysgwyr a allai fod yn fwy tebygol o fod yn agored i niwed neu sydd angen cymorth ychwanegol | Blynyddol yn hanfodol<br><br>Bob tymor / bob mis yn ddymunol | **Peth pwysigrwydd** gallai fod yn ddefnyddiol ar gyfer dadansoddi tueddiadau | **Llai pwysig** | Yr unigolyn | Hanfodol ar lefel yr unigolyn a dalgylch ysgol | **Pwysigrwydd isel** cael gafael ar ddata ar incwm wedi deillio naill ai o brocsis megis eFSM neu yn fwy uniongyrchol. Hefyd, rhoddir mwy o bwysigrwydd ar ddata incwm hirdymor yn hytrach na dim ond ar un adeg benodol mewn amser.<br><br>**Pwysigrwydd mawr** ar gael gafael ar fwy o wybodaeth gyd-destunol, fel y gwelir yn y defnydd o MALIC i ddarparu gwell dealltwriaeth gyffredinol o anfantais ac anghenion, gan gynnwys casglu ffactorau arfordirol/gwledig, a thrwy ddefnydd un ALI o ddata budd-daliadau tai. | **Llai pwysig,** mewnol i awdurdod lleol |
| **Gwella ysgolion** | Llunio a gweithredu ymyriadau ar lefel ysgol / lleol | **Llai pwysig,** mewnol i awdurdod lleol, er bod tryloywder y dull yn bwysig ar gyfer dealltwriaeth rhanddeiliaid (consortia rhanbarthol, ysgolion, llywodraethwyr) | **Pwysig iawn** i nodi carfannau o ddysgwyr a allai fod yn fwy tebygol o fod yn agored i niwed neu fod angen cymorth ychwanegol arnynt, ac yn ddelfrydol wedi'u cofnodi ar sawl adeg yn ystod y flwyddyn | Blynyddol **yn hanfodol**<br>Bob tymor/bob mis yn ddymunol | **Llai pwysig,** ond gallai fod yn ddefnyddiol ar gyfer dadansoddi tueddiadau | **Llai pwysig** | Yr unigolyn | Hanfodol ar lefel yr unigolyn | **Pwysigrwydd isel** cael mynediad at ddata incwm sy'n deillio o brocsis megis yr eFSM. Hefyd, rhoddir mwy o bwysigrwydd ar ddata incwm hirdymor yn hytrach na dim ond ar un adeg benodol mewn amser.<br><br>**Pwysigrwydd mawr** cael gafael ar fwy o wybodaeth gyd-destunol, gan gynnwys statws ADY, cyrhaeddiad, presenoldeb, gwaharddiadau, a data sy'n ymwneud â statws economaidd-gymdeithasol rhieni (NS-SEC) y gellir ei ddefnyddio fel rhan o fesur cyfansawdd. | **Llai pwysig,** mewnol i awdurdod lleol |

## Tabl 3. Gofynion ysgolion ar gyfer data ar anfantais economaidd-gymdeithasol dysgwyr

| Defnydd cyffredinol | Defnydd penodol | Hwylustod ei ddeall | Amseroldeb | Amlder (ar y lleiaf) | Sefydlogrwydd | Gallu cymharu | Gwrthrych y data | Daearyddiaeth | Elfennau a dimensiynau anfantais economaidd-gymdeithasol | Consensws |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwella ysgolion** | Monitro canlyniadau dysgwyr a meincnodi perfformiad | **Pwysig** i sicrhau bod data yn cael ei ddadansoddi, ei ddefnyddio a'i gyfleu'n briodol | **Pwysig**, i gyd-fynd ag amseru data canlyniadau / perfformiad | Blynyddol **yn hanfodol** Bob tymor/ bob mis yn ddymunol | **Pwysig iawn** i ddadansoddi cynnydd dysgwyr unigol drwy addysg a chymharu tueddiadau perfformiad carfannau dros amser | **Pwysig**, ar gyfer meincnodi ag ysgolion eraill (gan gynnwys drwy AWCDS) | Yr unigolyn | Hanfodol ar lefel dysgwyr a dalgylch ysgol | **Pwysigrwydd mawr** ar gael mynediad at ddata incwm sy'n deillio o brocsis megis yr eFSM neu'n fwy uniongyrchol. Hefyd, pwysigrwydd data incwm dros y tymor hwy yn hytrach nag ar un adeg benodol mewn amser.<br><br>**Pwysigrwydd mawr** ar gael mynediad at wybodaeth gyd-destunol arall i ddeall ffactorau perthnasol mewn canlyniadau, fel sy'n amlwg yn y defnydd o MALIC yn yr AWCDS a data a gwybodaeth a ddarparwyd gan yr ALlau. | **Pwysig,** ar gyfer meincnodi ag ysgolion eraill, teuluoedd o ysgolion, awdurdodau lleol ac yn genedlaethol |
| **Gwella ysgolion** | Hunan-werthuso | **Llai pwysig** | **Pwysig**, i gyd-fynd ag amseru data canlyniadau / deilliannau dysgwyr | Blynyddol | **Llai pwysig,** ond gallai fod yn ddefnyddiol ar gyfer dadansoddi tueddiadau | **Llai pwysig** | Yr unigolyn | Hanfodol ar lefel dalgylch ysgol | **Pwysigrwydd mawr** ar gael mynediad at ddata incwm sy'n deillio o brocsis megis eFSM ac, yn fwy uniongyrchol, DWP a HBAI<br><br>**Pwysigrwydd mawr** ar gael mynediad at wybodaeth gyd-destunol arall i ddeall ffactorau perthnasol mewn canlyniadau dysgwyr ac ysgolion, fel sy'n amlwg yn y defnydd o MALIC yn yr AWCDS a gwybodaeth arall | **Llai pwysig,** mewnol i awdurdod lleol / ysgol |

| Defnydd cyffredinol | Defnydd penodol | Hwylustod ei ddeall | Amseroldeb | Amlder (ar y lleiaf) | Sefydlogrwydd | Gallu cymharu | Gwrthrych y data | Daearyddiaeth | Elfennau a dimensiynau anfantais economaidd-gymdeithasol | Consensws |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwella ysgolion** | Adnabod dysgwyr bregus posibl | **Llai pwysig,** ond angen bod yn ddigon rhwydd ei ddeall i allu ei ddefnyddio'n hwylus | **Pwysig** i adlewyrchu anghenion anfantais economaidd-gymdeithasol diweddar yn y ffordd fwyaf cywir | Blynyddol **yn hanfodol**<br>Bob tymor/ bob mis yn ddymunol | **Llai pwysig** | **Llai pwysig** | Yr unigolyn | Hanfodol ar lefel dysgwyr a dalgylch ysgol | **Pwysigrwydd** ar gael mynediad at ddata incwm sy'n deillio o brocsis, megis eFSM ac, yn fwy uniongyrchol, gwybodaeth am ddata incwm hirdymor, yn hytrach nag un pwynt mewn amser<br><br>**Pwysigrwydd mawr** ar gael mynediad at wybodaeth gyd-destunol arall i adlewyrchu'n well yn gyffredinol ffactorau sy'n cwmpasu anfantais a dysgwyr nad ydynt wedi'u cynnwys gan fesurau incwm cyfredol. Mae hyn i'w weld yn y defnydd o MALIC sydd â sawl dangosydd, yn ogystal ag mewn gwybodaeth arall sydd ar gael, megis defnydd banc bwyd, ceisiadau am wisg ysgol, deiliadaeth tai a symud ysgol, plant sy'n derbyn gofal, ac anecdotaidd – mae rhai ohonynt yn dangos bod ysgolion yn ffurfio mesurau cyfansawdd. | **Llai pwysig,** mewnol i awdurdod lleol / ysgol, gyda dulliau eraill yn adlewyrchu'r cyd-destun lleol |
| **Gwella ysgolion** | Llunio a gweithredu ymyraethau ar lefel yr ysgol | **Llai pwysig,** ond mae angen iddo fod yn ddigon cynhwysfawr i fod yn hawdd ei ddefnyddio | **Pwysig** i adlewyrchu anghenion diweddar bod dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn y ffordd fwyaf cywir | Blynyddol **yn hanfodol**<br>Bob tymor/bob mis yn ddymunol | **Llai pwysig,** ond gallai fod yn ddefnyddiol ar gyfer dadansoddi tueddiadau | **Llai pwysig** | Yr unigolyn | Hanfodol ar lefel dysgwyr neu ddalgylch ysgol | **Pwysigrwydd** ar gael mynediad at ddata incwm sy'n deillio o brocsis, megis eFSM ac, yn fwy uniongyrchol, DWP a HBAI.<br><br>**Pwysigrwydd** cael mynediad at wybodaeth arall ar gyd-destun (fel yn rhes uchod) | **Llai pwysig,** mewnol i awdurdod lleol/ysgol |

## Tabl 4. Gofynion rhanddeiliaid eraill ar gyfer data ar anfantais economaidd-gymdeithasol dysgwyr

| Rhanddeiliad | Defnydd penodol | Hwylustod ei ddeall | Amseroldeb | Amlder (ar y lleiaf) | Sefydlogrwydd | Gallu cymharu | Gwrthrych y data | Daearyddiaeth | Elfennau a dimensiynau anfantais economaidd-gymdeithasol | Consensws |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Comisiynydd Plant Cymru** | Polisi ac eiriolaeth | **Pwysig**: dylai fod yn gyfarwydd i randdeiliaid i gefnogi gwaith eiriolaeth | **Llai pwysig**, angenrheidiol i lywio gwaith eiriolaeth i gyd-fynd â chylchoedd polisi Llywodraeth Cymru | Blynyddol | **Pwysig** ar gyfer dadansoddi effaith polisïau dros amser | **Pwysig** ar gyfer cymharu â gwledydd eraill | Unrhyw un | Hanfodol ar lefel genedlaethol<br><br>Dymunol ar lefel awdurdod lleol | **Pwysigrwydd mawr** ar gael mynediad at ddata ac ar fesurau sy'n ymwneud â thlodi incwm.<br>**Pwysigrwydd** data cyd-destunol arall, megis tai a chostau tai, defnyddio banciau bwyd, a chludiant ysgol am ddim. Ffactorau eraill nad ydynt yn benodol i anfantais a grybwyllir yn ymwneud â phlant sydd ar goll mewn addysg, plant sy'n cael addysg ddewisol yn y cartref, anabledd, etc. | **Pwysig** ar gyfer alinio polisïau â sefydliadau rhanddeiliaid eraill (e.e., NESTA, Sefydliad Bevan, etc.). |
| **Gyrfa Cymru** | Darparu cymorth wedi'i dargedu i ddysgwyr | **Llai pwysig** | **Pwysig** i adlewyrchu anghenion diweddar bod dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn y ffordd fwyaf cywir | Blynyddol | **Llai pwysig** | **Llai pwysig** | Yr unigolyn | Hanfodol ar lefel ysgol | **Pwysigrwydd mawr** ar fesurau sy'n gysylltiedig ag incwm, y gellir eu triongli ochr yn ochr â metrigau eraill sy'n ymwneud ag anfantais, megis ADY, ESOL, anabledd, gofalwr neu brofiad gofalu, etc. | **Llai pwysig** |

| Rhanddeiliad | Defnydd penodol | Hwylustod ei ddeall | Amseroldeb | Amlder (ar y lleiaf) | Sefydlogrwydd | Gallu cymharu | Gwrthrych y data | Daearyddiaeth | Elfennau a dimensiynau anfantais economaidd-gymdeithasol | Consensws |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Estyn** | Darparu gwybodaeth gyd-destunol ar gyfer arolygu | **Pwysig** ar gyfer llywio sgyrsiau gydag arweinwyr ysgolion a thryloywder yng nghyd-destun asesu | **Pwysig** i adlewyrchu anghenion diweddar bod dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn y ffordd fwyaf cywir | Blynyddol | **Pwysig** ar gyfer llywio dadansoddi tueddiadau proffil / cyd-destun yr ysgol | **Llai pwysig** | Yr unigolyn | Hanfodol ar lefel ysgol | **Pwysigrwydd** mesurau sy'n gysylltiedig ag incwm, fel sy'n deillio o brocsis megis eFSM, gan gynnwys dros y tymor hirach yn hytrach nag un pwynt mewn amser yn unig, fel y gwelir yn y defnydd o ddata wedi'i 'lyfnhau'.<br><br>**Pwysigrwydd mawr** yn cael ei roi ar wybodaeth gyd-destunol arall, gan gynnwys tlodi gwledig, i roi adlewyrchiad cywir o ddemograffeg ysgolion a ffactorau sy'n effeithio ar ddysgu. | **Llai pwysig,** Mewnol i Estyn |
| **Estyn** | Monitro perfformiad dysgwyr (i asesu a yw ysgol yn diwallu anghenion ai peidio) | **Llai pwysig** | **Pwysig** i adlewyrchu anghenion diweddar bod dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn y ffordd fwyaf cywir | Blynyddol | **Pwysig** ar gyfer meincnodi perfformiad ar Gyfnod Allweddol 4 ac ar gyfer cymharu tueddiadau dros amser | **Llai pwysig** | Yr unigolyn | Hanfodol ar lefel ysgol | **Pwysigrwydd** mesurau sy'n gysylltiedig ag incwm, fel sy'n deillio o brocsis megis eFSM, gan gynnwys dros y tymor hirach, nid dim ond ar un adeg benodol mewn amser, fel y gwelir yn y defnydd o ddata 'wedi'i lyfnhau'.<br><br>**Pwysigrwydd mawr** yn cael ei roi ar wybodaeth gyd-destunol arall ledled sawl dimensiwn anfantais economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys tlodi gwledig, i roi ymddygiad, presenoldeb a pherfformiad mewn cyd-destun. | **Llai pwysig,** mewnol i Estyn |

| Rhanddeiliad | Defnydd penodol | Hwylustod ei ddeall | Amseroldeb | Amlder (ar y lleiaf) | Sefydlogrwydd | Gallu cymharu | Gwrthrych y data | Daearyddiaeth | Elfennau a dimensiynau anfantais economaidd-gymdeithasol | Consensws |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Estyn** | Meincnodi perfformiad ysgolion ledled Cymru | **Llai pwysig** | **Pwysig** i adlewyrchu anghenion diweddar bod dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn y ffordd fwyaf cywir | Blynyddol | **Llai pwysig,** ar gyfer meincnodi perfformiad ar Gyfnod Allweddol 4 | **Pwysig iawn** ar gyfer cynnal dadansoddiad atchweliad ar draws ysgolion | Yr unigolyn | Hanfodol ar lefel ysgol | **Pwysigrwydd** mesurau sy'n gysylltiedig ag incwm wedi deillio o brocsis, megis eFSM, dros y tymor hirach, nid dim ond ar un adeg benodol mewn amser, fel y gwelir yn y defnydd o ddata 'wedi'i lyfnhau'.<br><br>**Pwysigrwydd mawr** ar wybodaeth gyd-destunol arall ar aml-ddimensiynau anfantais economaidd-gymdeithasol, gan gynnwys tlodi gwledig. | **Llai pwysig,** mewnol i Estyn |
| **Cymwysterau Cymru** | Rheoleiddio cymwysterau | **Llai pwysig** | **Llai pwysig** i gyfrannu at y diwygio yn ôl yr angen | Blynyddol | **Pwysig iawn** ar gyfer cymharu tueddiadau a chynnal safonau graddau TGAU a Lefel-A | **Pwysig** ar gyfer cymharu ar draws yr holl ganolfannau cymwysterau | Yr unigolyn | Hanfodol ar lefel canolfan gymwysterau | **Pwysigrwydd** mesurau sy'n gysylltiedig ag incwm megis eFSM, a diddordeb mewn data incwm dros y tymor hirach.<br><br>**Pwysigrwydd** cael mynediad at wybodaeth arall ar gyd-destun, fel y gwelir yn y defnydd o MALIC, sy'n rhoi cipolwg dyfnach ar raddfeydd anfantais. | **Llai pwysig,** mewnol i Cymwysterau Cymru |

| Rhanddeiliad | Defnydd penodol | Hwylustod ei ddeall | Amseroldeb | Amlder (ar y lleiaf) | Sefydlogrwydd | Gallu cymharu | Gwrthrych y data | Daearyddiaeth | Elfennau a dimensiynau anfantais economaidd-gymdeithasol | Consensws |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Cymwysterau Cymru** | Diwygio cymwysterau (asesiadau cydraddoldeb) | **Llai pwysig** | **Llai pwysig** i gyfrannu at y diwygio yn ôl yr angen | Blynyddol | **Pwysig** ar gyfer cymharu a dadansoddi tueddiadau dros amser | **Pwysig** ar gyfer cymharu ar draws yr holl ganolfannau cymwysterau | Yr unigolyn | Hanfodol ar lefel canolfan gymwysterau | **Pwysigrwydd** mesurau sy'n gysylltiedig ag incwm, megis eFSM a thriongli â data cydraddoldeb ehangach. Hefyd, mae diddordeb mewn data ar incwm dros y tymor hirach.<br><br>**Pwysigrwydd** cael mynediad at wybodaeth arall ar gyd-destun, fel y gwelir yn y defnydd o MALIC, sy'n rhoi cipolwg dyfnach ar raddfeydd anfantais. | **Pwysig** i gyd-fynd â'r dulliau a ddefnyddir gan ganolfannau cymwysterau |
| **UCAS** | Derbyniadau Addysg Uwch (drwy rannu data â sefydliadau) | **Pwysig,** dylai fod yn gyfarwydd i ddarparwyr addysg uwch, ysgolion a dysgwyr | **Pwysig:** dylai roi gwybodaeth i'r cylch derbyn blynyddol | Blynyddol | **Llai pwysig,** ond mae angen ystyried y bylchau ar gyfer dysgwyr hŷn / aeddfed | **Pwysig** ar gyfer darparu data cymharu â gwledydd eraill a dysgwyr rhyngwladol | Yr unigolyn (er bod rhai sefydliadau Addysg Uwch yn defnyddio data ar lefel ardal ar gyfer derbyniadau cyd-destunol) | Lefel genedlaethol | **Pwysigrwydd mawr** ar fesurau sy'n gysylltiedig ag incwm, megis procsis fel FSM.<br><br>**Pwysigrwydd** cael mynediad at wybodaeth arall ar gyd-destun a metrigau sy'n gysylltiedig ag anfantais, megis cyfrifoldebau rhianta neu ofalu, profiad gofalu teulu milwrol, ac anabledd. Hefyd, i'w weld yn y defnydd o MALIC. | **Llai pwysig:** sefydliadau yn defnyddio data ar gyfer eu polisïau eu hunain |

| Rhanddeiliad | Defnydd penodol | Hwylustod ei ddeall | Amseroldeb | Amlder (ar y lleiaf) | Sefydlogrwydd | Gallu cymharu | Gwrthrych y data | Daearyddiaeth | Elfennau a dimensiynau anfantais economaidd-gymdeithasol | Consensws |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **UCAS** | Ymyriadau a rhaglenni Mynediad Teg | **Pwysig:** dylai fod yn gyfarwydd i ddarparwyr addysg uwch, ysgolion a dysgwyr | **Pwysig** i adlewyrchu anghenion diweddar bod dan anfantais economaidd-gymdeithasol yn y ffordd fwyaf cywir | Blynyddol | **Llai pwysig** | **Llai pwysig** | Yr unigolyn | Lefel genedlaethol | **Pwysigrwydd mawr** ar fesurau sy'n gysylltiedig ag incwm, megis procsis fel eFSM.<br><br>**Pwysigrwydd** cael mynediad at wybodaeth arall ar gyd-destun a metrigau sy'n gysylltiedig ag anfantais, megis cyfrifoldebau rhianta neu ofalu, profiad gofalu teulu milwrol, ac anabledd. Hefyd, defnydd amlwg o MALIC. | **Llai pwysig,** mewnol i UCAS |